**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

3 Mehefin 2025

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025**

Diolch am eich llythyr yn tynnu sylw at eich datganiad ysgrifenedig Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2025. Nodaf fod y datganiad yn hysbysu'r Senedd eich bod wedi rhoi caniatâd i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau a fydd yn "ymestyn cyfnod gweithredu gwiriadau mewnforio ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol penodol ('SPS') sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o wledydd penodol, tan 31 Ionawr 2027." Yn y datganiad rydych chi'n egluro "bydd hyn yn caniatáu digon o amser i drosglwyddo i sail ddeddfwriaethol barhaol ar gyfer y BTOM [(Model Gweithredu Targed y Ffin)]."

Bydd y rheoliadau newydd hyn yn gohirio'r gwiriadau hynny am gyfnod sylweddol o amser; tan ymhell ar ôl etholiad y Senedd. Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi bod yn dilyn datblygiadau yn ymwneud â'r BTOM gyda diddordeb ers dechrau'r Chweched Senedd. Yn yr wythnosau nesaf, byddwn yn ystyried y goblygiadau sy'n deillio o gytundeb Dealltwriaeth Gyffredin y DU a'r UE wrth sefydlu Ardal Iechydol a Ffytoiechydol (SPS) Gyffredin i'r DU a'r UE drwy Gytundeb SPS yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar i chi am eich gohebiaeth ddiweddar yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n Pwyllgor ar drafodaethau SPS rhynglywodraethol.

Er mwyn ein helpu i barhau â'n gwaith craffu ar y maes hwn, a allech chi nodi:

- Amserlen o reolaethau masnach a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod gweddill y Chweched Senedd;

- I ba raddau, os o gwbl, y mae'r cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin yn ei gwneud yn ofynnol newid y dull o weithredu'r BTOM, gan gynnwys newidiadau i'r amserlen y cyfeirir ati uchod;
- Sut mae'r llywodraethau'n cydweithio ar y newid i'r dull gweithredu, os o gwbl, sy'n ofynnol yn ôl y cytundeb Dealltwriaeth Gyffredin;
- Pa oblygiadau sydd, os o gwbl, ar gyfer parodrwydd y Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd;
- Barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau SPS yn y Ddealltwriaeth Gyffredin;
- Barn Llywodraeth Cymru ar y darpariaethau penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brydain Fawr alinio'n ddeinamig â safonau SPS yr UE; a
- Dadansoddiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o'r Ddealltwriaeth Gyffredin mewn perthynas â symudiadau rhwng Cymru ac ynys Iwerddon, gan gynnwys symudiadau Gogledd Iwerddon-Iwerddon-Cymru ac i'r gwrthwyneb.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Rydw i wedi anfon copi at Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yng ngoleuni ein hymchwiliad traws-bwyllgor ar adolygiad gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Cofion cynnes,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

CC: Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad